Drwy e-bost at Swyddogion Cyfrifol

Gorffennaf 2018

Annwyl Swyddog Cyfrifol,

Rydym wedi cyhoeddi Rhestr Cymwysterau Blaenoriaethol (PQL) ddiwygiedig, sy'n adlewyrchu canlyniad ein hymgynghoriad diweddar ar y cynigion ar gyfer diwygio yn dilyn ein hadolygiad o gymwysterau a'r system gymwysterau ar gyfer y sector Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig.

Cyhoeddwyd yr adroddiad ar yr adolygiad hwnnw, Adeiladu'r Dyfodol, ar 8 Chwefror 2018, ynghyd ag ymgynghoriad ar opsiynau ar gyfer diwygio. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 13 Ebrill a chawsom 33 o ymatebion. Ar ôl ystyried yr ymatebion hyn, a oedd yn cefnogi'r cynigion a ffefrir gennym ar y cyfan, rydym bellach yn bwriadu gweithredu ar y cynigion hyn a ffefrir. Gallwch weld Atodiad A o'r ddogfen Rhestr Cymwysterau Blaenoriaethol a'r Rhagolwg ar ein gwefan i gael rhagor o wybodaeth.

O ran ein cynigion ar gyfer cymwysterau sy'n cael eu haddysgu mewn ysgolion yn bennaf, rydym yn cynnig datblygu a chyhoeddi meini prawf cymeradwyo ar gyfer cymhwyster lefel 1/2, sy'n debygol o fod yn gymhwyster TGAU, a chymhwyster lefel 3, sy'n debygol o fod yn gymhwyster TAG Safon Uwch. Rydym yn rhagweld y bydd elfen ymarferol gryf i'r cymwysterau hyn, sy'n debyg i'r hyn sydd i'r cymwysterau sydd ar gael ar hyn o bryd. Credwn mai dyma'r ffordd orau o annog pobl ifanc i feithrin dealltwriaeth o'r sector Adeiladu yn ifancach, a bydd yn darparu llwybrau

Qualifications Wales
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

www.qualificationswales.org

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

cliriach i ddysgwyr sy'n gobeithio mynd i weithio yn y sector hwn drwy brentisiaethau ac addysg uwch sy'n gysylltiedig â'r maes adeiladu.

Felly, rydym wedi ychwanegu'r cymwysterau hyn at y 'rhagolwg' o'r PQL, a byddwn yn ychwanegu'r cymwysterau at y rhestr yn ffurfiol ar ôl i ni ddatblygu'r meini prawf cymeradwyo. Yna, gall cyrff dyfarnu gyflwyno manylebau i'w cymeradwyo yn erbyn y meini prawf hynny.

O ran ein cynigion ar gyfer cymwysterau a addysgir yn bennaf ym maes Addysg Uwch ac ar Brentisiaethau, rydym yn cynnig comisiynu cymwysterau newydd i'w haddysgu am y tro cyntaf o fis Medi 2021 fel y nodir isod (gyda theitlau dros dro):

- Cymhwyster sylfaen mewn Adeiladu
- Cymhwyster sylfaen mewn Gwasanaethau Adeiladu
- Cymhwyster dilyniant mewn Adeiladu
- Cymhwyster dilyniant mewn Gwasanaethau Adeiladu
- Cymhwyster prentisiaeth ar gyfer Adeiladu
- Cymhwyster prentisiaeth ar gyfer Gwasanaethau Adeiladu

Mae pob un o'r cymwysterau uchod yn debygol o gael eu dyfarnu gyda chymeradwyaeth grefft-benodol er mwyn galluogi dysgwyr i ddatblygu a chymhwyso yn eu dewis grefft.

Mae'r PQL bellach yn cynnwys Hysbysiad o Gynnig i Gyfyngu ar y cymwysterau uchod gyda'r bwriad o sicrhau eu bod ar gael i'w haddysgu am y tro cyntaf ym mis Medi 2021. Mae'r PQL ddiwygiedig, gan gynnwys yr Hysbysiad o Gynnig i Gyfyngu, ar gael ar ein gwefan.

Mae'r Hysbysiad o Gynnig i Gyfyngu yn dechrau cyfnod pan all partïon sydd â diddordeb gyflwyno sylwadau i ni - mae'n rhaid cyflwyno'r rhain erbyn 5pm ar **3 Awst 2018**. Ein bwriad ar hyn o bryd, yn dibynnu ar y sylwadau, yw dewis un corff dyfarnu gan ddefnyddio proses gystadleuol deg ac agored, a fydd yn dechrau ym mis Gorffennaf 2019 os, yn dilyn y sylwadau, y byddwn yn dewis parhau â'n Cynnig i Gyfyngu.

Mae Adran 30(4) o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015 yn nodi na fydd dynodiad cymhwyster sy'n ddigon tebyg yn cael effaith ar ôl cymeradwyo cymhwyster cyfyngedig. Mae paragraff 25 o'n polisi Cymwysterau Blaenoriaethol Cyfyngedig yn dweud: 'Ni fydd Cymwysterau Cymru yn dynodi unrhyw ffurf ar gymhwyster sy'n destun cyfyngiad neu gymhwyster sydd â'r un diben â chymhwyster blaenoriaethol cyfyngedig neu ddiben tebyg, yn ein barn ni, yn enwedig lle y gellid dewis cymhwyster arall yn lle cymhwyster blaenoriaethol cyfyngedig'. Mae cwmpas ein Cyfyngiad Arfaethedig yn cynnwys y cymwysterau hynny yn y rhestr o bwyntiau bwled ar dudalen 1 uchod.

Byddai'r cyfyngiad arfaethedig ond yn berthnasol mewn perthynas â chymhwysedd cymwysterau i'w defnyddio ar raglenni dysgu a ariennir gan arian cyhoeddus yng Nghymru.

Wrth nodi effaith y Cyfyngiad Arfaethedig rydym wedi defnyddio'r broses ganlynol i lunio rhestr ddangosol o gymwysterau dynodedig presennol y gallai'r cyfyngiad effeithio arnynt pe bai'r corff dyfarnu perthnasol wedi bwriadu cynnig y cymhwyster ar ôl mis Awst 2021:

- cyrchu rhestr o gymwysterau dynodedig o gronfa ddata Cymwysterau yng Nghymru (QiW) wedi'u tynnu'n bennaf o'r rheini yn is-sector 5.1 Pensaernïaeth, 5.2 Adeiladu, 5.3 Cynllunio Trefol, Gwledig a Rhanbarthol a chymwysterau eraill gyda geiriau allweddol perthnasol
- dileu'r rheini a oedd yn bennaf cysylltiedig ag Iechyd a Diogelwch neu bynciau amherthnasol eraill
- dileu'r rheini ar lefel 1 a lefel 1 / 2 neu'n uwch na lefel 3
- dileu'r rheini sydd wedi'u hanelu at ddysgwyr sydd am gamu ymlaen i addysg uwch yn bennaf
- dileu'r rheini rydym yn nodi eu bod yn cael eu defnyddio at ddibenion datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer dysgwyr sy'n oedolion yn bennaf.

Rydym wedi gweithio'n galed iawn i ddatblygu'r rhestr hon, ond nid yw'n gynhwysfawr a chaiff ei hadolygu'n rheolaidd, yn enwedig yn dilyn unrhyw sylwadau a gyflwynir i ni erbyn 5pm ar **3 Awst 2018**. Os yw'r rhestr yn cynnwys cymwysterau na ddylai'r cyfyngiad effeithio arnynt yn eich barn chi, neu os ydych yn credu bod cymhwyster ar goll o'r rhestr, yna rhowch wybod i ni drwy gyflwyno sylw i constructionreview@qualificationswales.org cyn y dyddiad cau.

Os byddwn yn parhau â'n Cynnig i Gyfyngu, yna byddwn yn cyhoeddi rhestr ddiwygiedig yn ystod Hydref 2018 ac yn egluro bryd hynny sut y gall cyrff dyfarnu roi gwybod i ni am ddiwygiadau pellach.

Ers i ni ddechrau'r Adolygiad Sector, rydym wedi bod yn gosod dyddiadau gorffen gweithredol cyfyngedig ar bob cymhwyster sy'n gysylltiedig ag adeiladu, gyda dyddiad olaf o 31 Awst 2020. Pe bai'r cyfyngiad yn mynd rhagddo, gall cyrff dyfarnu wneud cais i ohirio'r dyddiad hwn am flwyddyn arall. Byddai'r canlynol yn berthnasol i gymwysterau ar y rhestr derfynol:

- 31 Awst 2021 fel Dyddiad Gorffen Gweithredol. Ni all dysgwyr newydd gofrestru ar gyfer cymhwyster ar ôl y dyddiad hwn. Fodd bynnag, byddai ymgeiswyr presennol yn cael cwblhau'r cymhwyster tan Ddyddiad Gorffen yr Ardystiad.

- 31 Awst 2023 fel Dyddiad Gorffen yr Ardystiad. Mae cymhwyster wedi dod i ben ar ôl y dyddiad hwn. Ni chaiff y cymhwyster ei ddyfarnu i unrhyw ddysgwyr ac ni fydd unrhyw ysgol na choleg yn derbyn arian cyhoeddus i'w addysgu ar ôl y dyddiad hwn. Byddem yn cysylltu â chi ynglŷn â'r broses ar gyfer gwneud hyn.

Byddwn yn rhoi manylion pellach am y broses, gan gynnwys sut y gall corff dyfarnu apelio yn erbyn cymhwyster ar y rhestr, os byddwn yn cyhoeddi Penderfyniad i Gyfyngu.

Yn gywir

Philip Blaker

Prif Swyddog Gweithredol

Cymwysterau Cymru